

Cylchlythyr Dysgwyr

YN RHIFYN MIS YMA:

- WYTHNOS CENEDLAETHOL YMWYBYDDIAETH YR HAUL
- DIWEDDARIAD CORONAFEIRWS
- AMLGREFYDD
- DYDDIADAU NODEDIG
- MERTHYR-PRIFDDINAS COFID
- DIWYLLIANT CYMRAEG
- DIOGELU:LLINELLAU CYFFURIAU

DIOGELU: LLINELLAU CYFFURIAU

Math o gamfanteisio troseddol yw Llinellau Cyffuriau, ble mae gangiau troseddol trefol yn gorfodi plant/pobl ifanc i storio a cludo cyffuriau neu arian i ardaloedd fwy gwledig neu arfordirol. Mae yn erbyn y gyfraith a mae'n fath o gam-drin plant. Mae'n digwydd ym mhob rhan o'r DU < gan gynnwys Cymru.

Mae gangiau trefol yn defnyddio ffonau symudol pwrpasol 'burner'. Gellir pob ffon ei ddefnyddio i ddanfoni nifer fawr o negeseuon testyn yn cynnig deal penodol i'r rhai sy'n gaeth. Unwaith mae'r caethiwon yn archebu, mae deliwr yn cael eu gyrru i ddanfoni yr archeb a casglu'r arian.

Mae'n ddeniadol i blant/pobl ifanc oherwydd y pres, dillad neu statws gall hyn gyflwyno, ond mae llawer o bobl yn cael eu gorfodi i fewn iddo yn erbyn eu hewyllys. Gall hyn gynnwys pobl ifanc bregus all fod yn ddigartref, yn y system ofal, neu yn ddefnyddwyr cyffuriau. Mae caethwasiaeth modern, masnachu mewn pobl, neu ecsbloetiaeth rhywiol hefyd yn gallu chwarae rhan mewn Llinellau Cyffuriau.

Mae gangiau Llinellau Cyffuriau yn gweithio drwy system o deyrngarwch, trais ac ofn, a mae'r gangiau yn mewnblannu aelod sy'n cael ei ymdduried ynddo yn y dref darged sy'n goruchwylio cludo'r cyffuriau. Mae gangiau weithiau yn cymeryd drosodd dŷ neu fflat rhywun sy'n gaeth i gyffuriau ac yn ei ddefnyddio fel canolfan eu gweithgareddau.

Mae'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol yn amcangyfrif fod oddeutu 100 neu fwy o rwydweithiau Llinell Cyffuriau yn cludo cyffuriau fewn i Gymru ac yn gyrru'r pres yn ôl i arweinwyr y gangiau mewn ardaloedd megis Llundain, Birmingham neu Lerpwl.

Yn ystod 2020, arestwyd dros 100 o bobl yng Nghaerdydd yn unig. Mae arwyddion fod person ifanc/plentyn o bosib yn ymglymedig â Llinell Cyffuriau yn cynnwys: newid mewn ymddangosiad gan gynnwys hyleneid gwael, ffrindiau newydd, arian ychwanegol, dillad, ymddygiad trahaus a hunan-niwed, mynd ar goll o'r ysgol, ac aros i ffwrdd o'r cartref dros nos ac ar y penwythnos. Cael ail ffon neu ffon 'burner' a derbyn nifer orfawr o negeseuon testyn/galwadau ffon.

Am fwy o wybodaeth ewch i'r wefan <https://county-lines.co.uk/>. I roi gwybod am unrhyw achos neu bryder, cysylltwch â Crimestoppers yn ddiennw ar 0800 555 111.

Os oes gan runhywun unrhyw bryderon diogelu, yna cysylltwch â un o'n tîm diogelu dros ebost a byddwn yn eich galw yn ôl.

Karen Smith: email: karen@cadcentreuk.com

Linda Thomas: email: linda.thomas@cadcentreuk.wales

DIWYLLIANT CYMRAEG

1af Mai– Mae Calan Mai yn wyl wanwyn hynafol, yn draddodiadol caiff ei ddathlu gyda dawnys y bedwen Fai

3ydd Mai– Gwyl y Banc

6ed Mai– **Peidiwch anghofio pleidleisio yn etholiadau'r Senedd ar y 6ed o Fai. Gwnewch yn siwr fod eich llais yn cael ei glywed.**

14eg Mai– **Dydd DYLAN**—Dathliad flynyddol newydd yn enw mab lenyddol enwocaf Cymru, Dylan thomas. Mae'n nodi'r dyddiad ddarlennodd Under Milk Wood am y tro cyntaf ar lwyfan yn y Poetry Centre yn Efrog Newydd ym 1953.

15fed Mai-Tafwyl 2021 Arlein–Yn arferol gynhelir y digwyddiad yma yng Nghastell Caerdydd, ond ar gyfer 2021 bydd digwyddiadau yn cymeryd lle arlein.

26ain Mai-6ed Mehefin-Gelli Digidol 2021- Mae Gwyl y Gelli yn mynd arlein am 2021. Mae mynychu'r wyl yn rhad ac am ddim a ni allai fod yn haws.

29ain Mai-HowTheLightGetsIn arlein–Mae gwyl fwyaf athroniaeth a cherdd y byd, HowTheLightGetsIn, wedi mynd yn ddigidol

Os ydych allan am dro ym Mis Mai, ystyriwch Llwybr Arfordir Cymru. 870 milltir o lwybrau arfordirol, a gwelwch safleoedd treftadaeth, eglwysi a chestyll. Gweler gwefan Visit Wales am deithiau rhithwir

DIWEDDARIAD CORONAFEIRWS

Cofid-19 - Profion Llif Unffordd

Mae'r dychwelyd i ddysgu wyneb-yn-wyneb nawr wedi cychwyn, gyda'r blaenoriaeth yn cael ei roi i asesiadau, profion, dysgwyr bregus ac ymweliadau hanfodol yn gyntaf. Bydd ein dull darparu yn ddull dysgu cyfunol gan gyfuno cyfarfodydd o bell ac ymweliadau wyneb-yn-wyneb.

Mae profion Llif Unffordd wedi eu darparu i aseswyr a maent yn cael eu cario allan ddwy waith yr wythnos fel bo aseswyr yn gallu parhau i ymweld â dysgwyr yn eu gweithlefydd.

Bydd aseswyr hefyd yn gofyn am unrhyw ddogfennau iechyd a diogelwch, gan gynnwys eich asesiad risg Cofid-19 sydd ei angen cyn i'r aseswr ymweld â'ch gwithle. Os oes gennych unrhyw gwsesytynau, yna cysylltwch â'ch aseswr.



BLODAU

“Blo-die”

FLOWERS



GOGLEDD CYMRU: 01248 670039

DE CYMRU: 0808 2000 129



Gweithdroad hynod Merthyr Tydfil o Brif-Ddinas Cofid y DU'

Ar gychwyn yr ail frig ym Mis Tachwedd 2020, roedd Merthyr Tydfil yn eiddo ar y deitl di-eisiau o "Prif-Ddinas Cofid y DU".

Ond roedd gwaeth i ddod. Ar ei frig, wythnos cyn y Nadolig, cofnododd Merthyr y swm anferthol o 1,349 achos i bob 100,000 a wnaeth arwain i'r niferoedd uchaf erioed fod angen gwely Ysbyty o achos y feirws.

Mewn cyfweiliad ar y 30ain o Ragfyr, 2020, dwedodd Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, fod cynnhwysedd adrannau Gofal Dwys tri Ysbyty; ardal yn llawn, oedd yn arwain i rai cleifion cael eu trosglwyddo i unedau arall ledled De Cymru.

Yn gwaethgu'r broblem oedd prinder staff, gyda gymaint a 12% o weithwyr Cwm Taf yn absenol nail ai oherwydd hunan-ynysu, dal y feirws eu hunain, neu cael salwch arall.

Roedd hyd yn oed yr Ysbyty Maes, Ysbyty Seren ym Mhenybont-ar-Ogwr yn "agos iawn" i beidio medru cymeryd cleifion newydd oherwydd problemau staffio.

"Mae ewyllus dda ac ymrwymiad anhygoel y staff yn rhoi fyny eu gwyliau, eu amser ffwrdd, ac yn dod yn ôl am shiftiau ychwanegol wedi ein galluogi i barhau i ddarparu gofal fel hoffwn" meddai Dr Lyons ar y pryd.

"Rwy'n dragwyddol fy ysbrydoli, syfrdanneru, a'm darostwng gan ein staff. Tra'n ymweld â'r safleoedd dros y gwyliau Nadolig rwyf wedi gweld dagrau, rwyf wedi gweld pobl wedi eu gorlethu gyda maint y dasg, ond dros bopeth arall rwyf wedi gweld yr ymrwymiad tuag at eu cleifion a'u gilydd. Maent wedi mynd i'r eithaf a'r hyn sy'n resymol i ofyn ohonynt"

Fel i'r wythnosau fynd yn eu blaenau, cychwynodd Merthyr Tydfil brofi gostyngiad sylweddol yn y graddau heintio diolch i gyfnod clo newydd a cychwyn darparu'r brechlyn.

Symyd ymlaen rhai wythnosau a mae'r sir bellach yn cofnodi dim ond 3.3 achos fesul pob 100,000 poblogaeth. Dyna'r radd isaf yng Nghymru o flaen mannau megis Ceredigion (5.5), Sir Benfro (4) a Chonwy (3.4) sydd wedi osgoi'r gwaethaf o'r argyfwng.

DYDDIADAU NODEDIG

1af Mai– Calan Mai. Gwyl Gwanwyn Hynafol

3ydd Mai– Gwyl y Banc

6ed Mai–Peidiwch anghofio pleidleisio yn etholiad y Senedd. Gwnewch siwr fod eich llais yn cael ei glywed

16eg Mai–Diwrnod Cenedlaethol y Plant yn y DU. Am blentyndod iach a gwarchod hawliau a rhyddid plant.

19eg Mai–Diwrnod Rhifedd Cenedlaethol. Dathliad flynyddol o bwysicrwydd rhifau, i hyrwyddo gwella sgiliau rhifedd.

20fed Mai–Diwrnod Gwenyn y Byd. I godi ymwybyddiaeth pa mor bwysig yw gwenyn mewn peillio, a'u cyfraniad i ddatblygiad cynaldwy.

31ain Mai–Gwyl y Banc y Gwanwyn

Wythnos Cenedlaethol Ymwybyddiaeth yr Haul

3ydd Mai i 9fed Mai 2021

Codi ymwybyddiaeth o beryglon gormod o haul a sut i osgoi llosgi a cancr y croen.

Ni yw heulwen yn ddrwg i gyd—mae'n helpu'r corff i greu Fitamin D sy'n bwysig i helpu esgyrn eich plant i dyfu ac aros yn gryf, yn ogystal a helpu nadu osteoporosis yn hwyrach mewn bywyd. Tra fod llosgi yn amhleserus ac yn annifyr, mae hefyd yn gallu arwain at gancr y croen.

Mae wythnos ymwybyddiaeth yr haul yn cael ei gynnal pob Mis Mai yn y DU.

Cancr y croen yw'r cancr fwyaf cyffredin yn y DU a mae cyfraddau wedi bod yn cynyddu ers y 1960au. Mae difrod haul sy'n cychwyn mewn plentynod yn gallu arwain at gancr croen hwyrach ym mywyd.

Mae wythnos ymwybyddiaeth yr haul yn cael ei gefnogi gan Cymdeithas Dermatolegwyr Prydain a'r Sefydliad Croen Prydeinig, gyda'r nod o gael y neges allan am warchod y croen er mwyn atal cancr y croen ddigwydd.

Dyma gyngor y Cymdeithas Dermatolegwyr ar arbed eich croen:

Cyngor Amddiffyn yn yr Haul

1. Treuliwch amser yn y cysgod yn ystod cyfnod fwyaf heulog y dydd pan fo'r haul ar ei gryfaf, sydd fel arfer rhwng 11yb a 3yh ym misoedd yr haf.
 2. Osgoi amlygiad uniongyrchol i'r haul i blant ifanc a babis
 3. Pan nad yw'n bosib i aros allan o'r haul, gall sicrhau eich bod wedi eich gorchuddio, gyda het, crys T, a sbectol haul roi amddiffyniad ychwanegol i chi
 4. Rhowch eli haul yn hael ar fannau o'r croen sy'n gweld yr haul. Rhaid ail daenu bob dwy awr ac yn syth ar ôl nofio neu defnyddio tywel i sicrhau eich bod wedi'ch amddiffyn.
- Felly dyna chi—gwnewch yn siwr eich bod wedi gorchuddio, arhoswch allan o'r haul ar yr adeg poethaf o'r dydd a peidiwch bod yn gybyddlyd efo'r eli haul.

AMLGREFYDD

1af Mai–Calan Mai

2il Mai–Pascha/Pasg-Cristnogol (uniongred)- Mae Cristnogion yn dathlu atgyfodiad yr Iesu

8fed Mai–LAILAT-UL-QADR [Shi'a] NOSON BWER-Mae hwn yn coffau y noson yn 610 CC pan dderbyniodd y proffwyd Muhammad ei ymweliad gyntaf gan yr angel.

9fed-15fed Mai–Wythnos Cynmorth Cristnogol

12fed May–Diwedd Ramadan–Mwslimaidd

13eg Mai–Diwrnod Dyrchafael (40 diwrnod ar ôl y Pasg)-Cristnogol

23ain Mai–Pentecost-Cristnogol

